APELIADAU ACADEMAIDD GWEITHDREFN AR GYFER CYRSIAU A ADDYSGIR 2024/2025

Teitl: Rheoliadau Apeliadau Academaidd					
Fersiwn	**Dyddiad Cyhoeddi**	**Disgrifiad o'r Adolygiad**	**Awdur**	**Cymeradwywyd gan a'r Dyddiad**	**Dyddiad Adolygu Nesaf**
1.0	Medi 2019	Rhifyn Cyntaf	Siobhan Coakley	QAC/Bwrdd Academaidd 4 Awst 2019	Mehefin 2020
2.0	Medi 2020	Ail Rifyn	Siobhan Coakley	QAC/Bwrdd Academaidd 3 Mehefin 2020	Mehefin 2021
3.0	Medi 2021	Trydydd Rhifyn	Gwenllian Jones	QAC/Bwrdd Academaidd 19 Mai 2021	Mehefin 2022
4.0	Medi 2022	Pedwerydd Rhifyn	Gwenllian Jones	QAC/Bwrdd Academaidd	Mehefin 2024
5.0	Medi 2024	Pumed Rhifyn	Siobhan Coakley	QAC/Bwrdd Academaidd 26 Mehefin 2024	Mehefin 2025

CYNNWYS

ADRAN UN: GWEITHDREFN CAM 1 - CYNGOR A CHYMORTH I FYFYRWYR..... 2

ADRAN DAU: GWEITHDREFN CAM 2 – DATRYS YN GYNNAR..... 3

ADRAN TRI: GWEITHDREFN CAM 3 – YSTYRIAETH I'CH APÊL GAN Y GYFADRAN 3
Amserlenni 3
Sail dros apelio 3
Prosesu'ch apêl 4
Canlyniad 5

ADRAN PEDWAR: GWEITHDREFN CAM 4 – CAIS I ADOLYGU 5
Sail dros adolygu 5
Amserlen 5
Ystyriaeth gychwynnol i'r achos 6
Bwrdd Adolygu 6
Panel Adolygu 6

ADRAN PUMP: SWYDDFA'R DYFARNWR ANNIBYNNOL AR GYFER ADDYSG UWCH (OIA) 8

ADRAN UN: GWEITHDREFN CAM 1 - CYNGOR A CHYMORTH I FYFYRWYR

1.1 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddiogelu llesiant emosiynol, meddyliol a chorfforol yr holl bartïon sy'n ymwneud â gweithredu ei Gweithdrefn Apeliadau Academaidd. Mae cyngor a chymorth cyfrinachol ar gael gan:

Undeb y Myfyrwyr - https://www.uswsu.com/academic
Gwasanaethau Llesiant y Brifysgol - http://thewellbeingservice.southwales.ac.uk/
Y Gaplaniaeth - http://chaplaincy.southwales.ac.uk/
Cyngor i Fyfyrwyr Mewnfudo a Rhyngwladol - https://intadvice.southwales.ac.uk/

1.2 Mae'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn darparu arweiniad awdurdodol, ffurfiol ar gymhwysedd a gweithrediad y Rheoliadau a'r Weithdrefn Apeliadau Academaidd.

1.3 Os ydych chi'n mynychu cyfarfod, caniateir i chi gael person sy'n cefnogi gyda chi, er enghraifft swyddog o Undeb y Myfyrwyr neu ffrind. Rôl y person sy'n cefnogi yw darparu cefnogaeth i chi yn ystod y cyfarfod. Fel arfer, nid eich cynrychioli, eirioli ar eich rhan na siarad drosoch chi yw eu rôl, oni chytunwyd ar hyn fel addasiad rhesymol oherwydd anabledd. Ni allwch anfon unrhyw berson arall i'r cyfarfod ar eich rhan. O leiaf 48 awr cyn y cyfarfod, rhaid i chi hysbysu'r Brifysgol o enw a statws y sawl sy'n dod gyda chi. Argymhellir yn gryf eich bod yn ceisio cefnogaeth gan Undeb y Myfyrwyr neu'r Gaplaniaeth, gan eu bod yn annibynnol ac yn gyfarwydd â rheoliadau a gweithdrefnau'r Brifysgol.

1.4 Mae Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn cadw'r hawl i wrthod presenoldeb person sy'n cefnogi os penderfynir bod gwrthdaro buddiannau yn ymwneud â'r person enwebedig, ac os felly, rhoddir cyfle i chi enwebu person sy'n cefnogi gwahanol.

1.5 Nid yw gweithdrefnau Prifysgol De Cymru yn gyfreithiol eu natur ac o ganlyniad, ni ddylai fod angen i chi gael person cymorth cyfreithiol neu gynrychiolydd mewn gwrandawiadau/cyfarfodydd. Fodd bynnag, gallwch geisio cyngor rhagarweiniol, heb ragfarn, ar gwmpas a natur y dystiolaeth y bwriadwch ei chyflwyno i gefnogi achos sy'n arbennig o gymhleth.

1.6 Er nad oes gennych hawl awtomatig i berson cymorth neu gynrychiolydd sy'n gymwys yn y gyfraith, os dymunwch gael eich cefnogi/cynrychioli mewn gwrandawiad/cyfarfod, rhaid i chi wneud cais ysgrifenedig am ganiatâd i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr (studentcasework@southwales.ac.uk) o leiaf bum diwrnod gwaith cyn dyddiad y gwrandawiad/cyfarfod a drefnwyd. Mae'n rhaid i chi gynnwys yn eich achos enw'r person/cynrychiolydd cymorth cyfreithiol arfaethedig a'r rhesymeg dros eich cais.

1.7 Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i dderbyn neu wrthod cais am berson cymorth cyfreithiol neu gynrychiolydd i fod yn bresennol, yn dibynnu a ddarperir rheswm da a chymhlethdod a difrifoldeb yr achos. Pe bai cais o'r fath yn cael ei gymeradwyo, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl hefyd i gael person/cynrychiolydd â chymhwyster cyfreithiol yn bresennol. Bydd unigolion/cynrychiolwyr cymorth cyfreithiol cymwys yn cael eu hysbysu'n glir o natur yr achos, h.y. nad ydynt yn broses gyfreithiol ac na fyddant yn cael eu cynnal felly.

ADRAN DAU: GWEITHDREFN CAM 2 – DATRYS YN GYNNAR

2.1 Byddwch yn cael cyfle i drafod eich canlyniadau diwedd blwyddyn ar ôl cyhoeddi'ch canlyniadau.

2.2 Cyn cyflwyno apêl i'w hystyried, dylech drafod unrhyw bryderon sydd gennych ynghylch eich canlyniadau neu benderfyniad y Bwrdd Asesu Dyfarniadau a Dilyniant gyda'r aelod staff priodol. Gallai hyn fod yn Arweinydd y Modiwl neu Arweinydd y Cwrs, neu os ydych yn credu y bu camgymeriad gweinyddol, dylech gysylltu â'r Ardal Gynghori. Os na fu modd datrys pob un o'ch pryderon, yna gallech gyflwyno apêl academaidd.

ADRAN TRI: GWEITHDREFN CAM 3 – YSTYRIAETH I'CH APÊL GAN Y GYFADRAN

Amserlenni

3.1 Rhaid i chi gyflwyno'ch apêl o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi gan ddefnyddio 'Ffurflen Apêl Cam 2' a dylech **gynnwys tystiolaeth ategol briodol.** Gallai hyn, er enghraifft, gynnwys gohebiaeth negeseuon e-bost gan eich tiwtoriaid/goruchwylwyr i gefnogi'ch honiad neu gopïau o asesiadau sy'n cynnwys canllawiau aneglur.
Mae ffurflenni apêl ar gael yn: https://registry.southwales.ac.uk/academic-registry/rheoliadau-myfyrwyr/apeliadau-academaidd/.

3.2 Bydd apeliadau hwyr dim ond yn cael eu derbyn os gallwch roi rheswm da, wedi'i gefnogi gan dystiolaeth ysgrifenedig annibynnol, dros gyflwyno apêl ar ôl y cyfnod a nodir. Bydd angen ystyried goblygiadau fisa wrth ystyried unrhyw apeliadau a gyflwynir, gyda rheswm da, y tu allan i'r amserlen benodedig. Ni allwn dderbyn apeliadau fwy na dau fis ar ôl i'ch canlyniadau gael eu cyhoeddi gan y bwrdd asesu perthnasol.

3.3 Pan nodir bod angen ystyried eich apêl yn gyflym, er enghraifft os bydd bwrw ymlaen neu oedi yn effeithio ar eich iechyd, bydd y Brifysgol yn sicrhau bod y staff sy'n ystyried yr apêl yn cael gwybod am hyn (gweler hefyd y ddogfen Cymorth i Fyfyrwyr ag Anableddau).

Sail dros apelio

3.4 Gellir cyflwyno apeliadau ar y sail ganlynol yn unig:

Diffyg neu afreoleidd-dra gweithdrefnol, sy'n berthnasol i ganlyniad y penderfyniad academaidd.

Rhaid i fyfyrwyr ddangos un neu fwy o'r categorïau canlynol:

a) bu camgymeriad gweinyddol;

b) ni ddilynwyd proses briodol mewn perthynas ag asesiadau;

c) roedd diffygion yn y cyngor a ddarparwyd mewn perthynas ag asesiadau;

ch) ni wnaethpwyd penderfyniad academaidd yn unol â rheoliadau'r cwrs

3.5 Ni dderbynnir apêl ar y sail bod myfyrwyr yn anghytuno â barn academaidd neu broffesiynol y bwrdd asesu h.y. rydych yn credu eich bod yn haeddu marc uwch neu ganlyniad gwahanol. Mae barn academaidd a phroffesiynol yn cynnwys asesu darn penodol o waith a/neu ddod i benderfyniad ar eich dilyniant, neu ar lefel derfynol y dyfarniad, ar sail marciau, graddau a gwybodaeth arall am eich perfformiad.

3.6 Ni fydd amgylchiadau esgusodol yn cael eu hystyried fel sail i apelio yn erbyn canlyniad gan y bwrdd dyfarnu a dilyniant. Dylid cyflwyno hawliad amgylchiadau esgusodol ar ôl y bwrdd o dan y Rheoliadau a'r Weithdrefn Amgylchiadau Esgusodol o fewn yr amserlen a ganiateir.

Prosesu'ch apêl

3.7 Ar ôl derbyn eich apêl Cam 2, ac o fewn pum diwrnod gwaith, bydd yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn gwirio bod eich apêl yn dderbyniol; hynny yw:

- nid yw'n cwestiynu barn academaidd na phroffesiynol y Bwrdd Asesu;
- bod yr apêl yn seiliedig ar y seiliau a ganiateir;
- ni ddylid cyfeirio'r mater a godwyd at weithdrefn arall;
- bod y ffurflen wedi'i chwblhau'n gywir, yn cynnwys yr holl dystiolaeth briodol ac fe'i cyflwynwyd cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl cyhoeddi canlyniadau'r asesiad neu caniateir hynny o dan adran 3.2.

Os mai dyma'r achos, caiff eich apêl ei chyfeirio at y gyfadran i'w hystyried.

3.8 Os nad yw eich apêl yn bodloni'r gofynion a nodir yn adran 3.4 caiff ei dychwelyd atoch ynghyd â Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau'r Brifysgol (gweler adran 6.1). Os yw eich apêl academaidd wedi'i chyflwyno'n rhy gynnar, ni fyddwch yn cael Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau ond byddwch yn cael gwybod pryd y bydd eich canlyniadau'n debygol o gael eu cyhoeddi fel y gallwch ystyried a hoffech ailgyflwyno eich apêl academaidd o fewn yr amserlen briodol.

3.9 Os yw eich apêl academaidd yn ymwneud â gwall gweinyddol syml, bydd y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn gofyn i'r cywiriadau priodol gael eu gwneud.

3.10 Bydd pob apêl academaidd arall sy'n gymwys i'w hystyried yn cael ei chyfeirio at enwebai yn y gyfadran (yr Enwebai). Ni fydd yr Enwebai wedi bod yn rhan o ystyried eich canlyniadau.

3.11 Ymdrinnir ag apeliadau Cam 2 ar sail y dogfennau a ddarperir gennych. Yn eithriadol, gellir eich gwahodd i gyfarfod i egluro manylion eich apêl. Os bydd angen mwy o wybodaeth ar enwebai'r gyfadran i'w helpu i ddod i benderfyniad ar ganlyniad eich apêl, rhoddir 5 diwrnod gwaith i chi gadarnhau eich bod yn bwriadu darparu'r wybodaeth ychwanegol a phryd y caiff y wybodaeth ei chyflwyno. Mae'n bosibl y bydd angen tystiolaeth neu eglurhad pellach gan bersonau eraill a/neu adrannau o fewn y Brifysgol. Os na chyflwynir y wybodaeth o fewn yr amser hwn ac os na roddir rheswm dros yr oedi, bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar yr apêl heb y wybodaeth ychwanegol.

3.12 Mae gan yr enwebai 15 diwrnod gwaith o'r dyddiad yr ydych yn darparu'r darn perthnasol olaf o ddogfennaeth i adolygu'r apêl ac ymateb i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr. Bydd yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn ysgrifennu atoch i roi canlyniad yr apêl o fewn pum diwrnod gwaith o dderbyn ateb y gyfadran.

3.13 Os nad oes modd i'r Brifysgol gadw at yr amserlenni penodol, er enghraifft o ganlyniad i gymhlethdod yr achos, bydd y Brifysgol yn ysgrifennu atoch i egluro'r oedi a chynnig dyddiad arall ar gyfer canlyniad eich apêl.

Canlyniad

3.14 Ni ellir codi na diwygio marciau ar gyfer asesiadau, modiwlau neu ddosbarthiadau gradd oni bai y bu camgymeriad gweinyddol, er enghraifft cyfrifwyd marc yn anghywir.

3.15 Os caiff eich apêl ei chadarnhau, bydd y llythyr canlyniad yn manylu ar yr hyn sy'n digwydd nesaf ac a oes angen i chi gysylltu ag unrhyw un arall. Penderfynir ar eich canlyniad yn unol â'r Rheoliadau ar gyfer Cyrsiau a Addysgir ac adroddir arno i'r Bwrdd Dyfarnu a Dilyniant i'w gadarnhau.

3.16 Os na chaiff eich apêl ei chadarnhau, bydd penderfyniad gwreiddiol y Bwrdd Dyfarnu a Dilyniant y gwnaethoch apelio yn ei erbyn yn dal i sefyll.

ADRAN PEDWAR: GWEITHDREFN CAM 4 – CAIS I ADOLYGU

Sail dros adolygu

4.1 Mae gennych hawl i gyflwyno cais Cam 3 i adolygu penderfyniad Cam 2 ar y seiliau canlynol:

a) Mae gennych dystiolaeth na chynhaliwyd gweithdrefnau Cam 2 yn unol â'r rheoliadau a bod hyn wedi'ch rhoi dan gryn anfantais.

b) Mae gennych dystiolaeth newydd a pherthnasol nad oedd ar gael, **am reswm da**, pan gyflwynwyd eich apêl Cam 2. *(D.S. Ni dderbynnir rhesymau personol, teuluol neu ddiwylliannol sensitif fel rheswm da oherwydd y dylid bod wedi tynnu sylw'r Brifysgol atynt yng ngham 2).*

Ni ddylasai'r wybodaeth hon fod wedi bod ar gael neu'n hysbys i chi pan gyflwynwyd yr apêl Cam 2. Ni fydd gwybodaeth a oedd ar gael ond na chafodd ei darparu gyda'r apêl Cam 2 yn cael ei hystyried yn sail ddilys dros ofyn am adolygiad.

c) Mae gennych dystiolaeth nad oedd y canlyniad yng ngham 2 yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

4.2 Gallwch ond mynd i gam 3 ar ôl cwblhau Cam 2.

4.3 Ni allwch gyflwyno unrhyw faterion newydd yng ngham 3.

Amserlen

4.4 Rhaid i chi gyflwyno'ch cais Cam 3 am adolygiad o fewn 10 diwrnod gwaith o gael eich hysbysu am ganlyniad Cam 2 gan ddefnyddio'r 'Ffurflen Cam 3 – Cais am Adolygiad' a dylai gynnwys tystiolaeth briodol. Gellir cael ffurflenni cais am adolygiad yn https://registry.southwales.ac.uk/academic-registry/rheoliadau-myfyrwyr/apeliadau-academaidd/.

4.5 Bydd ceisiadau hwyr am adolygiad dim ond yn cael eu derbyn os gallwch roi rheswm da, wedi'i gefnogi gan dystiolaeth ysgrifenedig annibynnol, am gyflwyno'ch cais y tu allan i'r amserlenni a nodir yn 4.4. Bydd angen rhoi ystyriaeth arbennig i amserlenni o ran goblygiadau fisa.

4.6 Pan nodir bod angen ystyried eich cais am adolygiad yn gyflym, er enghraifft, pan fydd bwrw ymlaen neu oedi yn effeithio ar eich iechyd, bydd y Brifysgol yn sicrhau bod y staff perthnasol yn cael gwybod am hyn.

4.7 Pan na fydd modd i'r Brifysgol gadw at yr amserlenni penodol, er enghraifft oherwydd cymhlethdod yr achos, bydd y Brifysgol yn ysgrifennu atoch i egluro'r oedi a chynnig dyddiad arall ar gyfer canlyniad eich adolygiad.

Ystyriaeth gychwynnol i'r achos

4.8 Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol (neu enwebai) yn ystyried eich cais am adolygiad o fewn 10 diwrnod gwaith o gyflwyno'r cais.

4.9 Os bydd Ysgrifennydd y Brifysgol (neu enwebai), ar ôl ystyried y cais am adolygiad yng ngham 3, yn dod i'r casgliad:

a) nad yw'n bodloni'r seiliau a nodwyd uchod yn 4.1;

b) fe'i cyflwynwyd y tu allan i'r terfyn amser o 10 diwrnod gwaith;

c) nad yw'n cynnwys y dystiolaeth briodol;

bydd y cais am adolygiad yn cael ei wrthod a bydd y penderfyniad gwreiddiol yn aros fel y mae. Bydd Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau'r Brifysgol yn cael ei anfon atoch o fewn 5 diwrnod gwaith o dderbyn penderfyniad Ysgrifennydd y Brifysgol (neu enwebai) gan yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr.

4.10 Os bydd Ysgrifennydd y Brifysgol (neu enwebai) yn penderfynu bod y cais am adolygiad yn bodloni un neu ragor o'r seiliau, gellir cymryd y camau canlynol:

a) Os oes gwall gweinyddol, bydd Ysgrifennydd y Brifysgol (neu enwebai) yn gofyn i hyn gael ei gywiro ac adroddir yn ôl i'r Bwrdd Dyfarnu a Dilyniant.

b) Os yw'r achos yn un syml, caiff ei gyfeirio'n ôl at y Bwrdd Asesu Dyfarniadau a Dilyniant perthnasol i'w ailystyried.

c) Os yw'r achos yn un cymhleth, caiff ei gyfeirio'n ôl at Banel Adolygu, a fydd yn cynnwys aelodau o'r Bwrdd Adolygu.

Bwrdd Adolygu

4.11 Bydd y Bwrdd Adolygu yn cynnwys:
- pedwar aelod wedi'u penodi gan y Bwrdd Academaidd;
- pedwar cynrychiolydd academaidd o bob cyfadran (o leiaf).

Panel Adolygu

4.12 Bydd y Panel Adolygu yn cynnwys:

- un o aelodau'r Bwrdd Adolygu a benodwyd gan y Bwrdd Academaidd (Cadeirydd);
- un o'r cynrychiolwyr academaidd ar y Bwrdd Adolygu, wedi'u dewis o gyfadrannau nad oes ganddynt gysylltiad â'r apêl sy'n cael ei hystyried;
- Llywydd Undeb y Myfyrwyr (neu enwebai), a fydd yn annibynnol ac na fydd ganddynt unrhyw wybodaeth flaenorol am eich achos.

Bydd aelodau'r Panel Adolygu yn annibynnol ac ni fydd cynrychiolydd Undeb y Myfyrwyr wedi eich cefnogi o'r blaen yn ystod eich achos.

Bydd aelod o'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn darparu cymorth gweinyddol.

4.13 Bydd y Panel Adolygu yn ymgynnull o fewn 20 diwrnod gwaith o'r dyddiad cyfeirio gan Ysgrifennydd y Brifysgol (neu enwebai).

4.14 Er mwyn gallu rhoi ystyriaeth lawn i'r cais am adolygiad, gall yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr wneud cais i'r gyfadran/campws am wybodaeth berthnasol. Diben y Panel Adolygu yw adolygu'r gweithdrefnau yng ngham 2 neu ystyried a oedd yn rhesymol na ddarparwyd tystiolaeth yng ngham 2, a pheidio â gwrando'r achos eto.

4.15 Bydd y Panel Adolygu yn gwneud un o'r penderfyniadau canlynol:

a) Gwrthod yr apêl a pheidio â chymryd unrhyw gamau pellach.

Yn yr achos hwn, bydd penderfyniad y Panel Adolygu yn cael ei gyfleu i chi o fewn 5 diwrnod gwaith o'r cyfarfod. Bydd y penderfyniad yn derfynol ac ystyrir bod y mater wedi dod i ben.

b) Bod canlyniad mwy cymesur yn cael ei awgrymu yn ei le yn unol â'r Rheoliadau ar gyfer Cyrsiau a Addysgir a bod y mater yn cael ei gyfeirio'n ôl at Gadeirydd y Bwrdd Dyfarnu ac Asesu Dilyniant i'w ailystyried.

Yn yr achos hwn, bydd penderfyniad y Panel Adolygu yn cael ei gyfleu i chi o fewn 5 diwrnod gwaith o'r cyfarfod. Bydd penderfyniad Cadeirydd y Bwrdd Asesu Dyfarniadau a Dilyniant yn cael ei roi i Ysgrifennydd y Brifysgol (neu enwebai) o fewn 10 diwrnod gwaith, a bydd y penderfyniad yn cael ei gyfleu i chi o fewn 5 diwrnod gwaith arall.

4.16 Mewn achosion eithriadol, mae'n bosibl y bydd y Panel Adolygu yn gofyn i'r Bwrdd Asesu Dyfarniadau a Dilyniant ailymgynnull. Os felly, mae'n bosibl y bydd y Panel Adolygu yn gofyn i swyddog o'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr fynychu cyfarfod y Bwrdd Asesu Dyfarniadau a Dilyniant fel sylwedydd. Rhoddir gwybod i chi os bydd angen newid amserlenni o ganlyniad.

4.17 Cynhelir unrhyw gyfarfod o'r Panel Adolygu yn breifat fel rheol; fodd bynnag, rhoddir cyfle i chi ofyn a allwch fod yn bresennol yn y cyfarfod. Yn eithriadol, gellir eich gwahodd i gyfarfod â'r Panel Adolygu i egluro manylion eich cais am adolygiad. Bydd cadeirydd y Panel Adolygu yn cadarnhau a fydd eich cais yn cael ei ganiatáu.

4.18 Nid oes unrhyw apêl yn erbyn penderfyniad y Panel Adolygu.

4.19 Gall y Panel Adolygu wneud argymhellion i'r Is-Grŵp Rheoliadau neu'r Bwrdd Academaidd eu hystyried, fel y bo'n briodol, ar unrhyw faterion sy'n codi o ystyried apeliadau.

ADRAN PUMP: SWYDDFA'R DYFARNWR ANNIBYNNOL AR GYFER ADDYSG UWCH (OIA)

5.1 Os byddwch yn anfodlon â'r canlyniad, gallwch, ar ôl derbyn Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau'r Brifysgol, gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA).

5.2 Gellir cael manylion yr OIA a'r wybodaeth berthnasol mewn perthynas â'r Cynllun yn www.oiahe.org.uk. Gellir cael gwybodaeth a chyngor pellach gan yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr.